Mapio Adnoddau sy'n Cefnogi'r Defnydd o TGCh gan y Gymuned yn Sir Gâr
Crynodeb Gweithredol

Chris Lewis
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Mehefin 2008

© Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr, 2008

Communities @One
Cymunedau @Ei Gilydd
Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru
YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 a 2 EUROPEAN UNION OBJECTIVES 1 & 2
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Ynglŷn â Cyswllt Sir Gaerfyrddin

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon fel rhan o brosiect Cyswllt Sir Gaerfyrddin CAVS, a ariennir gan y rhaglen Cymunedau @Ei Gilydd.

Mae Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda grwpiau cymunedol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Sir Gâr, i'w helpu i gymryd lluniau a fideos o weithgareddau cymunedol a'u rhannu ar flog cymunedol.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn: http://www.cyswlltsirgaerfyrddin.org.uk.

Ynglŷn â Cymunedau @Ei Gilydd

Mae Cymunedau @Ei Gilydd yn fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu pobl mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd. Ariennir y rhaglen ar y cyd trwy raglen Amcan 1 a 2 yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gweinyddir Cymunedau @Ei Gilydd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.

Mae Cymunedau @Ei Gilydd yn helpu pobl i ddefnyddio technoleg yn y cymunedau sydd â'r mwyaf o'i hangen yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cefnogi grwpiau cymunedol a mudiadau'r sector gwirfoddol i'w helpu i ddefnyddio technolegau mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w bywydau.

Ynglŷn â CAVS

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Sir Gâr. Mae CAVS yn elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor, cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o brif ganlyniadau ac argymhellion astudiaeth i fapio darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau cyfrwng digidol a TGCh ledled Sir Gâr. Mae hefyd yn dod o hyd i ardaloedd ble nad oes digon o ddarpariaeth ac yn ymchwilio i rwystrau at fynediad. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr, fel rhan o'i phrosiect Cyswllt Sir Gaerfyrddin a ariennir gydag arian Cymunedau @Ei Gilydd, rhwng Chwefror a Mai 2008. Ceir croesgyfeiriadau yn y crynodeb hwn sy'n cyfeirio at yr adroddiad llawn. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn: http://www.carmsconnect.org.uk/resources/survey/.

1.2 Nod ac Amcanion

Nod

Bwydo'r broses o gynllunio i ddarparu cyfleusterau a strwythurau cymorth TGCh ar gyfer cymunedau Sir Gâr yn y dyfodol.

Amcanion

Darganfod sgôp ac amrediad y ddarpariaeth TGCh gymunedol ar hyn o bryd, ar draws Sir Gâr

Tanlinellu ardaloedd daearyddol nad ydynt â digon o adnoddau ar hyn o bryd neu sydd wedi eu hallgau o ran mynediad at ddarpariaeth TGCh gymunedol

Cymharu'r ddarpariaeth o fewn ardaloedd gwledig, ardaloedd trefol ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar draws y Sir

Darganfod unrhyw gyfyngiadau ar fynediad i TGCh ymhlith y gymuned, naill ai o ran y ffyrdd posib o'i defnyddio neu'r ffordd o gael mynediad ati

Dod o hyd i rwystrau (boed yn rhai iawn neu'n rhai y mae pobl yn credu eu bod yno, yn rhai cymdeithasol, diwylliannol, addysgol neu economaidd) sy'n atal y gymuned rhag defnyddio TGCh yn effeithiol, neu'n eu hatal rhag ei defnyddio o gwbl

2. Methodoleg

Roedd yr astudiaeth fapio'n cynnwys dau arolwg ar ffurf holiadur, un wedi'i dargedu at ddarparwyr cyfleusterau a gwasanaethau TGCh a chyfrwng digidol i'r gymuned (yr arolwg o Ddarparwyr) ac un arall wedi'i dargedu at grwpiau cymunedol a grwpiau'r sector gwirfoddol (yr arolwg o Grwpiau).

Estynnwyd gwahoddiad i 66 darparwr adnoddau TGCh a chyfrwng digidol cymunedol i lenwi arolwg ar-lein. Roedd y sampl cynhwysfawr yn cynnwys

adnoddau a weithredir gan yr awdurdod lleol, safleoedd cymunedol, darparwyr addysg a hyfforddiant cymunedol, adnoddau a ddarperir trwy fudiadau cymunedol a mudiadau'r sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol. Wedi rheoli'r ymatebion a chynnal cyfweliadau dros y ffôn i ddilyn i fyny, cafwyd ymateb gan 86% o'r darparwyr y cysylltwyd â hwy.

Estynnwyd gwahoddiad i 500 o fudiadau cymunedol a mudiadau'r sector gwirfoddol i gymryd rhan yn yr arolwg o Grwpiau, gan ddefnyddio sampl a luniwyd o restr bostio gynhwysfawr CAVS. Cysylltwyd ag 183 o'r rhain drwy'r e-bost a gofynnwyd iddynt lenwi'r arolwg ar-lein. Anfonwyd holiadur ar bapur at y gweddill ynghyd ag amlen ragdaledig i ddychwelyd eu hymateb. Ar y cyfan, cafwyd 86 ymateb, ac felly roedd y gyfradd ymateb yn 17.2%.

Roedd y ddau arolwg yn gofyn am god post yr ymatebydd er mwyn eu lleoli'n ddaearyddol fesul ardal Rhwydwaith Cymunedol, ardal Cymunedau yn Gyntaf ac o fewn dosbarthiad gwledig / trefol a dynnwyd o ddiffiniadau Cynllun Datblygu Gwledig Sir Gâr.

3. Darganfyddiadau a Danlinellwyd yn yr Arolwg o Ddarparwyr

Cyngor Sir Gâr sy'n darparu'r prif ffyrdd o gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau TGCh a chyfrwng digidol cymunedol, i raddau helaeth drwy wasanaeth y llyfrgell, canolfannau addysg gymunedol a'r gwasanaeth sgiliau sylfaenol. Mae peth darpariaeth ar gael trwy ysgolion bro, ond fwy na thebyg nad ydyw'r elfen hon wedi cyrraedd ei llawn botensial eto. Mae'r sector cymunedol a gwirfoddol hefyd yn ddarparwr pwysig trwy neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol a mudiadau ail haen mwy o faint. Mae peth darpariaeth graddfa fach hefyd ar gael gan y sector preifat (*gweler 3.1.1.*) Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod darparwyr yn gweithio bron hyd eithaf eu gallu, ac felly nid oes fawr o le i ddatblygu'r ddarpariaeth heb fuddsoddiad ychwanegol (*gweler 3.1.8.*)

Mae lleoliad darparwyr TGCh cymunedol wedi'i rhannu'n weddol gyfartal rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, ond mae yna bwyslais ar ardaloedd rhwydweithiau cymunedol Llanelli a Taf Myrddin. Mae 20% o'r adnoddau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (*gweler 3.1.3.*) Mae dalgylchoedd yr adnoddau'n gogwyddo'n llethol tuag at y lleol: roedd 40% o'r rheiny a ymatebodd yn dweud eu bod yn gwasanaethu eu hardal leol (tref neu bentref) yn unig (*gweler 3.1.4.*)

Mae mwyafrif yr adnoddau TGCh cymunedol ar gael yn ystod oriau gwaith arferol yn unig. Fe ddywedodd 84% eu bod ar agor ar foreau yn yr wythnos, ond dim ond 34% oedd ar agor ar foreau Dydd Sadwrn (*gweler 3.1.5.*)

Mae mwyafrif y cyfleusterau TGCh yn gallu cynnig mynediad at offer TG sylfaenol (cyfrifiadur desg, cluniaduron (laptops) ac argraffyddion). Mae yna lai o ddarpariaeth at ddefnydd cyfryngau digidol, er enghraifft camerâu llun llonydd digidol, camcordor a chyfleusterau sain a golygu fideo (*gweler 3.1.6, 3.4.*)

Dywedwyd bod rhai cyfyngiadau cyffredin ar y defnydd o gyfleusterau TGCh. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngiadau ar lawrlwytho meddalwedd (39%), chwarae gemau (34%), gwylio fideos (29%) a rhwydweithio cymdeithasol (26%) (*gweler 3.5.*)

Mae cymorth 1-1 ar gael yn llawer o'r cyfleusterau TGCh gyda chymorth neu hyfforddiant wedi'i strwythuro lawer yn fwy ar gael gan nifer fach o'r prif ddarparwyr (*gweler 3.1.7.*) Ble mae cymorth fwy strwythuredig ar gael mae hyn, yn gyffredinol, ym meysydd meddalwedd Office sylfaenol a defnyddio'r we (*gweler 3.4.*)

Diffyg nawdd yw'r elfen yr adroddwyd fwyaf yn ei chylch fel rhwystr i wella'r ddarpariaeth, ymhlith darparwyr TGCh cymunedol (26%). Y cyfuniad nawdd a ddefnyddir gan ddarparwyr, ar y cyfan, yw'r defnydd o nawdd grant ar gyfer costau cyfalaf, gyda chostau refeniw yn cael eu talu gydag arian ffioedd neu incwm arall. Defnyddir amrywiaeth o ffynonellau grant i ariannu gwariant cyfalaf, a nawdd Ewropeaidd yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin (*gweler 3.7.*)

Mae mwyafrif yr offer a ddarperir gan ddarparwyr TGCh cymunedol yn weddol newydd (fe ddywedodd 66% eu bod wedi eu prynu o fewn y 3 blynedd diwethaf). Ond, nid oedd gan lawer o ymatebwyr unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ail-fuddsoddi yn yr offer (32%) neu nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau o'r fath (18%) (*gweler 3.7.*)

4. Darganfyddiadau a Danlinellwyd yn yr Arolwg o Grwpiau

Ymhlith y rheiny a ymatebodd i'r arolwg o Grwpiau, roedd defnydd helaeth o TGCh. Roedd 80% o'r rheiny a ymatebodd yn defnyddio TGCh yn uniongyrchol yn eu gweithgareddau cymunedol neu i gefnogi eu gweithgareddau; Roedd 50% o'r grwpiau cymunedol a ymatebodd yn berchen ar eu hoffer TGCh eu hunain. Ymhlith yr holl grwpiau cymunedol sy'n defnyddio TGCh, mae yna ddefnydd sylweddol o offer TGCh personol (70%) ac offer TGCh y gweithle (22%) i gefnogi gweithgarwch cymunedol a gwirfoddol (*gweler 4.2*).

Y rheswm fwyaf cyffredin a gafwyd gan ymatebwyr tros beidio â defnyddio TGCh oedd nad oeddent angen ei defnyddio (29%). Roedd ymatebion eraill yn nodi bod diffyg mynediad, amser a hyfforddiant addas yn rhwystrau (*gweler 4.7*).

Yn bennaf, mae grwpiau cymunedol yn Sir Gâr yn defnyddio TGCh i gefnogi gweithgarwch gweinyddol, i anfon negeseuon e-bost ac i ddefnyddio'r we. Gwneir llai o ddefnydd o dechnolegau cyfrwng digidol a chymdeithasol mwy newydd (ac eithrio golygu ac argraffu ffotograffau digidol) (*gweler 4.3*).

Ceir mwyafrif mynediad grwpiau cymunedol i'r rhyngrwyd trwy gyfrifiaduron yr aelodau eu hunain (62%). Roedd 45% o grwpiau cymunedol yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd trwy eu cyfrifiadur personol eu hunain; dim ond 3% o'r rheiny a ymatebodd oedd heb unrhyw fynediad o gwbl. Roedd mynediad band eang ar gael yn helaeth ymhlith yr ymatebwyr: Roedd 79% o'r rheiny a ymatebodd a atebodd y cwestiwn yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd trwy fand eang. Roedd gan 59% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn eu gwefan eu hunain (*gweler 4.4*).

Roedd llawer llai o dystiolaeth o fynediad at gymorth TGCh wedi'i strwythuro ymhlith grwpiau cymunedol o gymharu â darparwyr adnoddau TGCh. Dim ond 33% o'r rheiny a ymatebodd a oedd â chytundeb cymorth TGCh, ac roedd llawer o grwpiau cymunedol yn dibynnu ar eu help eu hunain neu gymorth arbenigwyr anffurfiol lleol am y cymorth TGCh. Fe ddatgelodd yr arolwg y buasai llawer o grwpiau cymunedol yn croesawu gwasanaeth sy'n darparu hyfforddiant neu gymorth technegol 1-1, er, roedd mwyafrif y rheiny a ymatebodd yn dweud na fyddent yn gallu fforddio talu am wasanaeth o'r fath (*gweler 4.5.*)

Mae grwpiau cymunedol yn ariannu eu hoffer TGCh trwy gyfuniad o nawdd grant o amrywiaeth o ffynonellau (63%) a chyfraniadau gan aelodau (53%). Mae offer sy'n eiddo i grwpiau cymunedol yn weddol newydd: roedd 51% wedi prynu offer yn y 12 mis diwethaf, a 42% arall wedi ei brynu o fewn y 3 blynedd diwethaf (*gweler 4.6.*)

Ymhlith defnyddwyr TGCh roedd yna gytundeb sylweddol mai'r prif elfennau sy'n rhwystro grwpiau cymunedol rhag defnyddio TGCh yn effeithiol yw diffyg arbenigedd neu hyfforddiant (30%) a diffyg nawdd (28%) (*gweler 4.7.*).

5. Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai strategaeth ar gyfer datblygu cyfleusterau TGCh sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i lleoli o fewn cymunedau lleol cyhyd ag sy'n ymarferol, dylai adeiladu ar adnoddau presennol ble'n briodol a dylai gynnwys y gymuned leol yn y broses o'i chynllunio a'i gweithredu.

Argymhelliad 2: Ymchwilio i'r potensial ar gyfer cynyddu mynediad y gymuned at gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli. Fe allai hyn gynnwys ymestyn yr oriau agor neu, ble'n briodol, eu cefnogi i ehangu eu sylfaen cleientiaid.

Argymhelliad 3: Ystyried ehangu mynediad TGCh cymunedol ar lefel leol, trwy helpu lleoliadau cymunedol i osod rhyngrwyd band eang, rhwydweithiau diwifr a nifer fach o gyfrifiaduron â mynediad agored, er lles y gymuned ehangach. Ystyried clymu cymorth o'r fath at ofyniad i weithredu fel lleoliad sy'n cynnal hyfforddiant TGCh ac sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer cymunedau lleol a'r cyhoedd.

Argymhelliad 4: Dylid helpu darparwyr hyfforddiant TGCh sy'n gweithio yn y gymuned i fuddsoddi mewn offer TGCh symudol er mwyn cynnal hyfforddiant mewn safleoedd lleol.

Argymhelliad 5: Dylid ystyried datblygu cyfleuster hyfforddi symudol sy'n cynnwys cluniaduron â phecynnu addas, a chludiant, at ddefnydd darparwyr hyfforddiant a safleoedd lleol sy'n darparu hyfforddiant ar lefel leol.

Argymhelliad 6: Wrth ddatblygu cyfleusterau TGCh cymunedol, dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a digidol gan y gymuned.

Argymhelliad 7: Dylai darparwyr cyfleusterau TGCh adolygu eu polisïau 'defnydd' i sicrhau nad ydynt yn cyfyngu'r defnydd positif o dechnolegau cyfrwng digidol a chymdeithasol yn ddiangen tra'n parhau i fod yn briodol i'r sefyllfaoedd penodol ac i sicrhau diogelwch eu cleientiaid.

Argymhelliad 8: Sicrhau bod cyfleusterau TGCh cymunedol yn hygyrch i bobl anabl trwy eu helpu i gael gwared ar rwystrau ffisegol i fynediad, law yn llaw gyda chymorth ar gyfer datblygiadau TGCh, neu nodi amod mewn cymorth ar gyfer datblygiadau TGCh bod angen gosod y cyfleusterau mewn lleoliad hygyrch.

Argymhelliad 9: Dylid sefydlu gwasanaeth lleol sy'n darparu cyngor a chefnogaeth gyda thechnolegau addasol a gwella mynediad at TGCh i bobl anabl. Dylai dynnu ar yr arbenigedd sydd gan fudiadau arbenigol yn barod. Dylid ystyried helpu cyfleusterau TGCh cymunedol i brynu neu i fenthyg technoleg addasol hefyd.

Argymhelliad 10: Mae'n hanfodol sicrhau mwy o fuddsoddiad wrth ddarparu gwasanaethau cymorth symudol, i sicrhau bod grwpiau cymunedol a defnyddwyr cyfleusterau TGCh cymunedol graddfa fach yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh.

Argymhelliad 11: Dylid cydnabod y manteision i'r gymuned pan fydd aelodau o grwpiau cymunedol yn defnyddio eu hoffer TGCh eu hunain i gefnogi gweithgarwch cymunedol. Dylid gwneud hyn trwy roi cymorth technegol iddynt fel rhan o unrhyw wasanaeth cymorth ehangach a ddatblygir.

Argymhelliad 12: Dylid sefydlu gwasanaethau i alluogi grwpiau cymunedol, a chyfleusterau TGCh cymunedol llai o faint, ar draws y sir gyfan, i gael mynediad at gymorth technegol 1–1.

Argymhelliad 13: Dylai gwasanaethau cymorth ystyried adeiladu ar strwythurau cymorth anffurfiol y mae grwpiau cymunedol yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Dylai hefyd gynnig hyfforddiant a chydnabyddiaeth i'r arbenigwyr TG gwirfoddol niferus sy'n cefnogi grwpiau cymunedol ar hyn o bryd.

Argymhelliad 14: Ystyried sefydlu cymorth dros y ffôn a rhwydweithiau cymorth hunan-help, i fynd ochr yn ochr gydag unrhyw ddarpariaeth cymorth 1–1 ffurfiol.

Argymhelliad 15: Dylid cynllunio'r broses o ddarparu cymorth technegol ar gyfer y sector cymunedol i fod yn hyblyg, ac i allu ymateb i anghenion penodol a sefyllfaoedd unigryw pob grŵp cymunedol unigol.

Argymhelliad 16: Dylid darparu cymorth gyda hyfforddiant TGCh a chyfryngau digidol, ar gyfer grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd.

Argymhelliad 17: Dylai darparwyr ystyried hybu amrywiaeth o hyfforddiant a chymorth wedi'u targedu ymhlith grwpiau cymunedol, sy'n cynnwys sgiliau TG sylfaenol, cymwysiadau mwy cymhleth a gwneud y defnydd gorau o gyfryngau cymdeithasol a digidol.

Argymhelliad 18: Dylai darparwyr ystyried hyfforddi a helpu grwpiau cymunedol gyda'r gwaith o ddatblygu gwefan.

Argymhelliad 19: Dylai darparwyr ystyried hybu gweithgareddau wedi eu targedu ymhlith grwpiau cymunedol, fel ffordd o ennyn diddordeb pobl hŷn mewn defnyddio TGCh yn effeithiol.

Argymhelliad 20: Dylai darparwyr cyfleusterau cyfrwng digidol a TGCh cymunedol ystyried datblygu strategaethau ar gyfer adnewyddu offer yn rheolaidd, mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio.

Argymhelliad 21: Dylid datblygu cynlluniau busnes cynaliadwy sy'n ystyried pwysedd tebygol nawdd, ar gyfer cyfleusterau TGCh cymunedol newydd a'r rheiny sy'n cael cymorth i ehangu.

Argymhelliad 22: Dylid cynnig cymorth nawdd i grwpiau cymunedol i brynu offer TGCh newydd yn lle rhai hen.

Argymhelliad 23: Dylai fod cymorth a chyngor ar gael i grwpiau cymunedol ar gaffael TG a datblygu ymagwedd gynaliadwy at ddatblygu TGCh.

Argymhelliad 24: Dylid ystyried datblygu cynlluniau grant penodol, ar gyfer grwpiau cymunedol mwy o faint, sy'n cyfuno nawdd ar gyfer gwariant cyfalaf gyda chymorth TGCh wedi ei deilwra'n arbennig a chymorth i ddatblygu strategaethau TG cynaliadwy.